



Pob Pennaeth Cynllunio  
Awdurdodau Cynllunio Lleol

13 Mawrth 2020

Annwyl Gyfeillion

## **CORONAFEIRWS COVID 19 - LLACIO GORFODAETH YR AMODAU SY'N YMWNEUD Â DOSBARTHIAD MANWERTHU**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr y diwydiant bwyd er mwyn sicrhau bod archfarchnadoedd a manwerthwyr bwyd eraill yn gallu ymateb i'r cynnydd mewn galw gan gwsmeriaid am rai cynhyrchion yn ystod yr achos o'r Coronafeirws Newydd (COVID-19).

Mae yna archfarchnadoedd, manwerthwyr bwyd a chanolfannau dosbarthu sy'n destun amodau cynllunio sy'n cyfyngu ar gyflenwadau yn ystod y nos ac yn gynnar yn y bore. Mae'r amodau hyn yn angenrheidiol er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol i breswylwyr lleol a allai ddioddef fel arall o ganlyniad i draffig, sŵn a materion eraill yn ymwneud ag amwynder o ganlyniad i'r cyflenwadau hyn.

Oherwydd yr heriau eithriadol sy'n wynebu Cymru a'r Deyrnas Unedig gyfan o ganlyniad i COVID-19, mae'n hanfodol bwysig y gall cyflenwadau o fwyd, cynhyrchion glanweithiol a chynhyrchion hanfodol eraill gael eu darparu mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl dros yr wythnosau nesaf, gan sicrhau yr amherir cyn lleied â phosibl ar y cadwyni cyflenwi y mae cymunedau yn ddibynnol arnynt. Mae'r pwysau sy'n debygol o godi o ran y gyrrwyr a fydd ar gael yn golygu bod angen cynnig hyblygrwydd ychwanegol fel y gall manwerthwyr dderbyn cyflenwadau drwy gydol y dydd a'r nos pan fo hynny'n angenrheidiol.

Yn ogystal â sicrhau bod cadwyni cyflenwi yn effeithiol, mae'n bosibl y bydd pwysau hefyd ar fanwerthwyr i amrywio eu horiau agor. Mae'n bosibl y bydd galw ychwanegol ar siopau i agor yn gynharach neu'n hwyrach, gan roi'r cyfle i bobl sy'n poeni am y perygl o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws siopa ar adegau llai prysur.

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol ymchwilio i bob cŵyn sy'n ymwneud â gorfodaeth a dderbynnir gan awdurdod cynllunio lleol. Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn pwysleisio, fodd bynnag, fod y penderfyniad ynghylch bwrw ymlaen â champau gorfodi ffurfiol yn dilyn achosion lle amheuir bod rheolaeth gynllunio wedi ei thorri yn un sydd i'w wneud yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ôl disgresiwn, a dylai unrhyw gamau y mae awdurdodau cynllunio yn penderfynu eu cymryd fod yn gymesur.

O ganlyniad i'r heriau eithriadol sy'n deillio o COVID-19 a'r pwysau dros dro ar fanwerthwyr a dosbarthwyr perthnasol sy'n deillio o hynny, dylai awdurdodau cynllunio weithredu mewn modd cadarnhaol yn eu hymwneud â manwerthwyr a dosbarthwyr bwyd, yn ogystal â'r diwydiant cludo, er mwyn sicrhau nad yw rheolaethau cynllunio yn rhwystr i gynnal y gadwyn gyflewni bwyd yn ystod y cyfnod hwn. Hefyd, dylid mabwysiadu agwedd gadarnhaol mewn perthynas â sicrhau y gall siopau aros ar agor er mwyn gwasanaethu'r gymuned leol.

Ni ddylai awdurdodau cynllunio geisio cymryd camau gorfodi cynllunio a fyddai'n arwain at gyfyngiadau diangen ar gyflenwadau bwyd a chyflenwadau hanfodol eraill yn ystod y cyfnod hwn, nac mewn perthynas ag oriau agor siopau estynedig, gan ystyried eu rhwymedigaethau cyfreithiol.

Rwy'n cydnabod y gallai cynnydd mewn cyflenwadau yn ystod oriau anghymdeithasol ac oriau agor estynedig gael effaith dros dro ar amwynder preswylwyr lleol, y mae amodau cynllunio yn ceisio ei warchod. Mae'r sectorau manwerthu a logisteg wedi bod yn gweithio i gael cyn lleied o effaith â phosibl ar breswylwyr dros y blynyddoedd diwethaf drwy ddefnyddio'r arferion gorau, ac rwy'n disgwyl i hynny barhau.

Hoffwn bwysleisio mai mesur dros dro yw hwn ac y bydd yr angen am yr hyblygrwydd a amlinellir yn y llythyr hwn yn dod i ben unwaith y bydd y sefyllfa frys wedi cilio.

Yn gywir



**Julie James AC/AM**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government